# SL(5)694 - Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu trefniadau dros dro i hwyluso cynhyrchu a chyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod yr argyfwng Covid-19. Mae'r trefniadau hyn yn debyg i'r cynigion yn Argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd 2020/403 dyddiedig 13 Mawrth 2020 ar weithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a gwyliadwraeth y farchnad yng nghyd-destun bygythiad COVID-19, ond mae'r trefniadau yn y Rheoliadau hyn yn benodol i Gymru a daethant i rym ar ddiwrnod cwblhau y Cyfnod Gweithredu. Mae'r llacio yn gyfyngedig o ran amser, gan fod angen cynnal asesiad o'r cyfarpar diogelu personol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch erbyn dyddiadau penodedig.

Mae rheoliad 2 yn caniatáu i PPE gael ei roi ar y farchnad tra ei fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth ond cyn i'r gweithdrefnau hyn gael eu cwblhau a chyn i unrhyw nod cydymffurfiaeth gael ei osod arno. Mae rheoliad 3 yn caniatáu i PPE gael ei gaffael heb fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a heb fod nod cydymffurfiaeth wedi ei osod arno, ond ni ddylai'r PPE hwnnw fod ar gael i neb ond gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen yn unig. Yn y ddau achos, rhaid i'r PPE fod wedi ei asesu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a rhaid i'r awdurdod hwnnw fod wedi canfod bod y PPE yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch hanfodol yn Atodiad II i Reoliad 2016/425/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2016 ar gyfarpar diogelu personol ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC (fel y'i diwygiwyd ac fel y'i dargedwir yng nghyfraith y DU). Pan fo'r amodau wedi eu bodloni, caiff y rhwymedigaethau yn Rheoliad 2016/425 eu trin fel pe baent wedi eu bodloni at ddibenion Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Gorfodi) 2018 ac mewn cysylltiad â PPE ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen eraill, ni fydd awdurdod gwyliadwraeth y farchnad yn ei gwneud yn ofynnol i ddod â'r peidio â chydymffurfio i ben. Nid yw hyn yn gymwys ond mewn achosion pan na fo'r weithdrefn asesu cydymffurfiaeth wedi ei chwblhau a phan na fo'r nod cydymffurfiaeth wedi ei osod ar y PPE oherwydd dibynnu ar reoliadau 2 neu 3 o'r Rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 45C, adran 45F(2) ac adran 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"). Mae adran 45Q(2)(a) a (4)(b) o Ddeddf 1984 yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan adran 45C oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron, ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan, y Senedd. (h.y. y weithdrefn gadarnhaol). Fodd bynnag, mae adran 45Q(3) o Ddeddf 1984 yn darparu nad yw hyn yn gymwys os yw'r offeryn yn cynnwys datganiad bod y person sy'n ei wneud o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy rinwedd adran 45C(3)(c) o Ddeddf 1984 sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sydd wedi neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn honno ac mae datganiad wedi'i gynnwys i'r perwyl hwnnw yn y rheoliadau. Felly mae'r offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Pwrpas yr offeryn yw cynyddu'r graddau y mae PPE ar gael, a lleihau risgiau i iechyd cyhoeddus, yn hytrach na gosod cyfyngiadau neu ofynion arbennig.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ond maent yn ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn a Rheoliad 2016/425/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 9 Mawrth 2016, ar gyfarpar diogelu personol a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC (fel y'i diwygiwyd), y mae'r Rheoliadau yn cyfeirio atynt, yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dilyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Ionawr 2021**